AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Gwanwyn 2023 - Rhifyn 21

## Cylchlythr Gwanwyn AWTTC

**Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Ionawr – Mawrth 2023 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2023

Ionawr 2023

Mae Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn gasgliad o gamau gweithredu i gefnogi fferylliaeth gymunedol, ymarfer deintyddol cymunedol, optometreg gymunedol ac ymarfer cyffredinol i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu harferion o ddydd i ddydd ac i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Cynnal ail sesiwn llawn gwybodaeth Dysgu dros Ginio

Mawrth 2023

Ymunodd na 100 o glinigwyr â'r sesiwn ar-lein a oedd yn cynnwys sgyrsiau ar fethiant y galon, dangosyddion rhagnodi cenedlaethol a Ffarmacogenomeg yn ogystal â'r holl newyddion diweddaraf gan AWTTC.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Bydd system Cyffuriau Cost Uchel Blueteq (HCD) yn cael ei chyflwyno ar draws GIG Cymru o 1 Ebrill 2023.

Mawrth 2023

Bydd y system HCD yn galluogi byrddau iechyd i fonitro'r gwaith o ragnodi meddyginiaethau cost uchel a rheoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Fideos bellach ar gael o gyfarfod diweddar y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Chwefror 2023

Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir diweddaraf y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) yn llwyddiannus ar 7 Chwefror 2023.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Dau uwch reolwr AWTTC yn ymddeol ar ôl 36 mlynedd gyfunol o wasanaeth

Mawrth 2023

Ar ddechrau 2023 gwelwyd newidiadau mawr yng Nghanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) wrth i ddau aelod hirsefydlog o'r uwch dîm rheoli ymddeol

Darllenwch fwy yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor wedi'i gymeradwyo ar gyfer tair meddyginiaeth a aseswyd trwy broses Meddyginiaethau Cymru'n Un

Mawrth 2023

Mae Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd yng Nghymru wedi cymeradwyo cyngor ar gyfer tair meddyginiaeth, infliximab, ustekinumab (Stelera®) a vedolizumab (Entyvio®), ar ôl eu hasesu drwy broses Meddyginiaethau Cymru'n Un.

Darllenwch fwy yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaetha

## Gweithdy IPFR yn Stadiwm Dinas Caerdydd

Mawrth 2023

Cynhaliwyd y gweithdy, sy'n agored i glinigwyr sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am waith IPFR, yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar Chwefror 28 ain – a oedd hefyd yn Ddiwrnod Clefydau Prin.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol i'w hadolygu nawr bob tair blynedd

Chwefror 2023

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan wedi cytuno y dylai proses adolygu a diweddaru'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol newid o bob blwyddyn i bob tair blynedd.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023: Adroddiadau chwarterol

Ionawr 2023

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru

Ionawr 2023


Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfle a gyflwynir gan feddyginiaethau biodebyg – Strategaeth Genedlaethol i Gymru

Ionawr 2023


Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Maximising the opportunity presented by biosimilar medicines

A national strategy for Wales

January 2023

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau y bydd y GIG a'i bartneriaid yng Nghymru yn eu cymryd i gefnogi'r amodau sydd eu hangen i greu marchnad meddyginiaethau biolegol a biodebyg gref a chystadleuol yn y DU er budd y GIG, cleifion ac economi Cymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Amlgyffuriaeth mewn pobl hŷn: Canllaw i weithwyr gofal iechyd proffesiynol

Mawrth 2023

Mae'r canllaw canlynol wedi'i greu i helpu i gefnogi optimeiddio meddyginiaethau mewn cleifion hŷn a allai fod yn cael presgripsiynau amlgyffuriaeth amhriodol.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Mawrth 2023

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data rhagdueddiad pathogenau lleol a gwrthficrobaidd yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus NPIS, Caerdydd

Mawrth 2023

Cynhaliodd y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus deuddydd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Darllenwch fwy yma.

Yellowcard
Centre
Wales

## Canolfan Cerdyn Melyn yn Addysgu Myfyrwyr

Mawrth 2023

Ym mis Mawrth, dychwelodd YCC Cymru i Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd i ddysgu myfyrwyr Fferylliaeth ynghylch adweithiau niweidiol i gyffuriau a rhoi gwybod amdanynt drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Darllenwch fwy yma.